Bore da,

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i'r cyntaf o'n Sgyrsiau gyda CNC, ffordd newydd i gymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid siarad yn uniongyrchol â ni am y materion sy'n bwysicaf iddyn nhw.

**Dyddiad: 18 Mawrth 2026**
**Amser: 2.30pm tan 4.30pm**
**Lleoliad: Y Stiwdio Crwn, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, SY23 3DE**

Bydd y digwyddiad yn dod ag aelodau Bwrdd a staff CNC at ei gilydd am sgwrs, cwestiynau a thrafodaeth agored am ein gwaith ledled Cymru. Mae'r digwyddiad hwn sy'n debyg i farchnad wedi'i lunio i'w gwneud yn haws i chi rannu eich barn, codi pryderon, a helpu i siapio sut rydym yn rheoli amgylchedd naturiol Cymru.

Fe wyddom fod pobl ar hyd a lled Cymru yn teimlo gofal mawr dros y lleoedd ble maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser ac na fu erioed yn bwysicach meithrin sgyrsiau ystyrlon gyda'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae sgyrsiau gyda CNC yn rhan o'n dull newydd o greu cyfleoedd mwy croesawgar, hygyrch ac adeiladol i siarad â ni a dysgu am ein gwaith.

**Beth i'w ddisgwyl**
Cwrdd ag aelodau Bwrdd a staff CNC
Archwilio materion sy'n wynebu eich amgylchedd lleol
Rhannu syniadau, pryderon a blaenoriaethau
Meithrin perthnasoedd sy'n cryfhau eich llais a'ch gweithredoedd amgylcheddol

Bydd llefydd parcio ar gael ac mae croeso i chi alw heibio ar unrhyw adeg yn ystod y digwyddiad. Os na allwch chi ddod ond bod aelod arall o'ch sefydliad yn gallu dod, a fyddech chi cystal â phasio'r gwahoddiad hwn ymlaen.

Mae yna hefyd lawer o ffyrdd eraill y gallwch siarad â ni. Dysgwch fwy yn yr adran Cysylltu â ni ar ein gwefan.

Edrychwn ymlaen at ddechrau sgwrs newydd am ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru.

--------------------------------------

Good morning,

We are pleased to invite you to the first of our Conversations with NRW, a new way for communities, stakeholders and partners to speak directly with us about the issues that matter most.

**Date: 18 March 2026**
**Time: 2.30pm to 4.30pm**
**Location: The Round Studio, Aberystwyth Arts Centre, SY23 3DE**

The event will bring together NRW Board members and staff for open conversation, questions, and discussion about our work across Wales. This marketplace-style event is designed to make it easier for you to share your views, raise concerns, and help shape the way we manage Wales' natural environment.

We know that people across Wales care deeply about the places they live, work and spend time in and it has never been more important to build meaningful conversations with the communities we serve. Conversations with NRW is part of our new approach to create more welcoming, accessible and constructive opportunities to speak with us and learn about our work.

**What to expect**
Meet NRW Board members and staff
Explore issues facing your local environment
Share ideas, concerns and priorities
Build relationships that strengthen your voice and environmental action

Parking is available and you are welcome to drop in at any point during the event. If you cannot attend but another member of your organisation is able to do so, please pass on this invitation.

There are also many other ways you can speak with us. Find out more on the Contact Us section of our website.

We look forward to starting a new conversation about the future of Wales' natural environment.